***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 911 (Cy. 207)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd a Diod (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - -* | *12 Gorffennaf 2021* |
| *Gwnaed - - - -* | *28 Gorffennaf 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *30 Gorffennaf 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Awst 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn briodol Senedd Cymru(**2**) ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd a Diod (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Awst 2021.

### Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

**2.** Yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014(**4**), ar ôl rheoliad 14 mewnosoder—

(**1**) 2018 p. 16. Mae diwygiadau i baragraff 1 o Atodlen 2 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan baragraff 53 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) EUR 2002/178, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 2014/2303 (Cy. 227), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"**Darpariaethau trosiannol: ymadael â'r UE**

**15.**—(1) Ni chaiff swyddog awdurdodedig o awdurdod bwyd gyflwyno i berson hysbysiad gwella sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio ag Erthygl 9(1)(h), ac Erthygl 9(1)(i) fel y'i darllenir gydag Erthygl 26(3)—

(a) pe bai'r hysbysiad gwella yn ymwneud â chynnyrch a osodwyd ar y farchnad ar 30 Medi 2022 neu cyn hynny, a

(b) pe na bai'r mater wedi methu â chydymffurfio â'r darpariaethau hynny fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn dyddiad cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(2) Ni chaiff swyddog awdurdodedig o awdurdod bwyd gyflwyno i berson hysbysiad gwella sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio ag Erthygl 7(1) neu Erthygl 36(2)(a) neu (b)—

(a) pe bai'r hysbysiad gwella yn ymwneud â chynnyrch penodedig a osodwyd ar y farchnad cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, a

(b) pe na bai labelu'r cynnyrch penodedig wedi methu â chydymffurfio â'r darpariaethau hynny fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Caniateir i gynhyrchion y mae paragraff (1) neu (2) yn gymwys iddynt barhau i gael eu marchnata nes i'r stociau gael eu disbyddu.

(4) Ni chaiff swyddog awdurdodedig o awdurdod bwyd gyflwyno i berson hysbysiad gwella sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio ag Erthygl 7(1) neu Erthygl 36(2)(a) neu (b)—

(a) pe bai'r hysbysiad gwella yn ymwneud â chynnyrch penodedig a osodwyd ar y farchnad o fewn y cyfnod sy'n dechrau â diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023, a

(b) pe na bai labelu'r cynnyrch penodedig wedi methu â chydymffurfio â'r darpariaethau hynny fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(5) Caniateir i gynhyrchion gwin y mae paragraff (4) yn gymwys iddynt barhau i gael eu marchnata nes i'r stociau gael eu disbyddu.

(6) Caniateir i gynhyrchion eraill y mae paragraff (4) yn gymwys iddynt barhau i gael eu marchnata hyd 31 Rhagfyr 2023.

(7) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cynnyrch gwin" ("*wine product*") yw cynnyrch y mae Rhan 2 o Atodiad 7 i Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol(**5**)fel yr oedd y Rheoliad hwnnw yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn gymwys iddo;

ystyr "cynnyrch penodedig" ("*specified product*") yw cynnyrch y gellir ei adnabod yn unigol, gan gynnwys cynnyrch gwin, sy'n dwyn dangosiad a restrir ym mhwynt 5, 6 neu 7 o Atodiad 10 i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 668/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a deunydd bwyd(**6**)fel yr oedd y Rheoliad hwnnw yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;

(**5**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 2020/2220 (OJ Rhif L 437, 28.12.2020, t. 1).
(**6**) OJ Rhif L 179, 19.6.2012, t. 36.

ystyr "hysbysiad gwella" ("*improvement notice*") yw hysbysiad gwella yn unol â rheoliad 12(1)."

**Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015**

**3.** Yn Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015(**7**), ar ôl rheoliad 6 mewnosoder—

"**Darpariaeth drosiannol: ymadael â'r UE**

**7.**—(1) Ni chaiff swyddog awdurdodedig gyflwyno i berson hysbysiad gwella sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio ag ail is-baragraff Erthygl 5(1), Erthygl 6 neu Erthygl 7—

(a) pe bai'r hysbysiad gwella yn ymwneud â chynnyrch a roddwyd ar y farchnad cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu; a

(b) pe na bai'r mater sy'n fethiant honedig i gydymffurfio wedi methu â chydymffurfio â'r darpariaethau hynny fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(2) Ni chaiff swyddog awdurdodedig gyflwyno i berson hysbysiad gwella sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio ag ail is-baragraff Erthygl 5(1), Erthygl 6 neu Erthygl 7—

(a) pe bai'r hysbysiad gwella yn ymwneud â chynnyrch a roddwyd ar y farchnad ar 30 Medi 2022 neu cyn hynny;

(b) pe bai'r cynnyrch yn dwyn un o'r dangosiadau y darperir ar eu cyfer yn y darpariaethau hynny fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu; ac

(c) pe na bai defnyddio'r dangosiad yn fethiant i gydymffurfio â'r darpariaethau hynny fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "hysbysiad gwella" ("*improvement notice*") yw hysbysiad gwella yn unol â rheoliad 6(1) fel y'i darllenir gyda Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn."

*Lynne Neagle*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Gorffennaf 2021

(**7**) O.S. 2015/1519 (Cy. 177), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod darpariaethau trosiannol mewn is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys o ran Cymru ym maes safonau a labelu bwyd a diod ac maent yn ymwneud â diwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed gan offerynnau statudol Ymadael â'r UE eraill.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.